



Bwrdd Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru (BDCGC)

Grwpiau Gweithredol Lleol

Cylch Gorchwyl

Diben

Diben y Grwpiau Gweithredol Lleol ar gyfer Plant ac Oedolion yw cynorthwyo Bwrdd Gweithredol Diogelu Rhanbarthol Canolbarth a Gorllewin Cymru yn ei fusnes craidd yn unol â'r hyn a amlinellir yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant [Cymru] 2014 i:

- Amddiffyn plant ac oedolion yn eu hardal a allai fod yn profi, neu sydd mewn perygl o gael eu cam-drin, eu hesgeuluso, a mathau eraill o niwed ac;
- Atal plant ac oedolion yn eu hardal rhag bod mewn perygl o gael eu cam-drin, eu hesgeuluso a mathau eraill o niwed.

Amcanion

Bydd Grwpiau Gweithredol Lleol BDCGC:

- Yn cydweithio mewn cyd-destun ac amgylchedd amlasiantaethol a gyda sefydliadau'r trydydd sector i gadw plant ac oedolion, a allai fod mewn perygl, yn ddiogel yn eu hardal leol
- Yn sicrhau bod ymarfer diogelu, cynllunio strategol a chomisiynu gwasanaethau ar draws yr holl asiantaethau partner yn gwella a hyrwyddo canlyniadau da yn barhaus ar gyfer plant ac oedolion a allai fod mewn perygl yn eu hardal leol
- Yn creu fforwm ble mae dysgu ar y cyd a rhannu gwybodaeth ac arweiniad yn digwydd mewn amgylchedd amlasiantaethol

- Yn cydweithio, ond yn herio ei gilydd yn broffesiynol, ac yn dwyn ei gilydd i gyfrif pan fydd ymarfer diogelu yn disgyn islaw safonau disgwylidig.

Aelodaeth

Bydd gan aelodau o Grwpiau Gweithredol Lleol gyfrifoldeb uwch yn eu sefydliadau am ymarfer diogelu. Dylai fod ganddynt yr awdurdod i wneud penderfyniadau ar ran eu sefydliad, a'u bod yn gallu cyfrannu a chymryd rhan yn llawn mewn trafodaethau mewn perthynas ag ymarfer diogelu.

Grwpiau Gweithredol Lleol Plant

- Pennaeth Gwasanaethau (Cadeirydd)
- Uwch Reolwr Diogelu, Gwasanaethau Plant
- Arweinydd Diogelu Dynodedig, (Addysg Gynradd ac Uwchradd)
- Arweinydd Diogelu Dynodedig, Dysgu a Datblygu
- Nyrs a Enwyd, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda / Bwrdd Iechyd Addysgu Powys
- Meddyg a Enwyd, Diogelu
- Heddwys sydd â statws Arolygydd o leiaf, ac y mae'r Prif Arolygydd wedi rhoi cyfrifoldebau penodol iddo/iddi mewn perthynas ag amddiffyn plant ac oedolion, Heddlu Dyfed Powys
- Arweinydd Diogelu Dynodedig, y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol / Cwmni Ailsefydlu Cymunedol
- Gwasanaeth Cyfiawnder/Troseddau Ieuencid
- Cynrychiolwyr dynodedig y trydydd sector

Grwpiau Gweithredol Lleol Oedolion

- Pennaeth Gwasanaethau Oedolion (Cadeirydd)
- Uwch Reolwr Diogelu, Gwasanaethau Oedolion
- Arweinydd Diogelu Dynodedig, Dysgu a Datblygu
- Arweinydd Comisiynu, Diogelu
- Nyrs a Enwyd, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda / Bwrdd Iechyd Addysgu Powys
- Heddwys sydd â statws Arolygydd o leiaf, ac y mae'r Prif Arolygydd wedi rhoi cyfrifoldebau penodol iddo/iddi mewn perthynas ag amddiffyn plant ac oedolion, Heddlu Dyfed Powys
- Arweinydd Diogelu Dynodedig, y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol / Cwmni Ailsefydlu Cymunedol
- Cynrychiolwyr dynodedig y trydydd sector/darparwr preifat

Swyddogaethau

Bydd Grwpiau Gweithredol Lleol BDCGC:

- Yn cydweithio â Bwrdd Gweithredol BDCGC a fydd yn darparu arweinyddiaeth ac arweiniad strategol ar waith a gweithgarwch disgwylidig yn eu hardal leol.
- Yn cydweithio â phedwar Is-Grŵp Rhanbarthol presennol BDCGC, sef yr Is-Grŵp Adolygu Ymarfer Plant, yr Is-Grŵp Adolygu Ymarfer Oedolion, yr Is-Grŵp Polisiâu a Gweithdrefnau a'r Is-Grŵp Hyfforddiant. Bydd Uned Fusnes BDCGC yn sefydlu proses fusnes a fydd yn cynorthwyo a hwyluso sianelau cyfathrebu rhwng y Byrddau Gweithredol Lleol a'r Is-Grwpiau.
- Yn casglu a dadansoddi gwybodaeth Sicrhau Ansawdd. Byddant yn nodi tueddiadau o ran ymarfer diogelu ac yn adrodd am hyn i Fwrdd Gweithredol y BDCGC fel rhan o'r Fframwaith Adrodd Sicrhau Ansawdd Rhanbarthol.
- Yn hwyluso ac yn trefnu rhaglen archwiliadau lleol a rhanbarthol mewn perthynas â gweithgarwch diogelu yn unol â'r cyfarwyddyd gan BDCGC, ac yn adrodd am y canfyddiadau hyn i'r Bwrdd Gweithredol fel rhan o'r Fframwaith Adrodd Sicrhau Ansawdd Rhanbarthol.
- Pan fydd yn cael ei gytuno a'i ystyried yn briodol, yn trafod achosion a allai o bosibl fodloni'r meini prawf ar gyfer adolygiad ymarfer.
- Yn hwyluso ac yn trefnu rhaglen Fforymau Ymarfer Amlasiantaethol, sy'n deillio o ganfyddiadau archwiliadau ac arolygiadau.
- Yn ystyried, monitro ac adrodd i Fwrdd Gweithredol BDCGC am gynnydd unrhyw gynlluniau gweithredu rhanbarthol.
- Bydd Grwpiau Gweithredol Lleol Plant ac Oedolion priodol ym mhob ardal yn datblygu cysylltiadau cryf a sianelau cyfathrebu clir. Bydd hyn yn cael ei gyflawni trwy gynnal cyfarfodydd ar yr un diwrnod ac yn yr un lleoliad gydag adran agenda drawsbynciol, ble gellir trafod materion diogelu sy'n berthnasol i ymarfer diogelu plant ac oedolion ar y cyd.
- Yn datblygu cysylltiadau cryf a sianelau cyfathrebu clir gyda defnyddwyr gwasanaeth a grwpiau cymunedol lleol, ac yn ystyried a sefydlu ffyrdd y gellir bwydo eu barn i gyfarfodydd y Grŵp Gweithredu Lleol.
- Yn ystyried a nodi anghenion hyfforddiant diogelu amlasiantaethol.

Yn ogystal ag achosion sy'n bodloni'r meini prawf ar gyfer cyfeirio at yr Is-Grŵp Adolygu Ymarfer Plant, disgwylir i Grwpiau Gweithredol Lleol gynnal rhaglen reolaidd a pharhaus o Fforymau Ymarfer Amlasiantaethol a ddylai fod yn ddigwyddiadau wedi'u hwyluso sy'n hyrwyddo dysgu myfyriol ac yn archwilio ymarfer achos. Dylid cysylltu'r digwyddiadau hyn yn agos â chanlyniad archwiliadau ac arolygiadau. Bydd canlyniad y digwyddiadau hyn, yn ogystal â dysgu wedi'i ledaenu, yn cael eu monitro a'u goruchwyllo gan Fwrdd Gweithredol CYSUR trwy'r fframwaith sicrhau ansawdd, a byddant yn cael eu hadrodd i'r Bwrdd bob chwarter fel rhan o adroddiad Cadeirydd y Grŵp Gweithredol Lleol. Bydd yr Uned Fusnes yn archwilio'r rhain, yn ogystal â'r holl Fforymau Ymarfer Amlasiantaethol a argymhellwyd gan yr Is-Grwpiau Adolygu

Ymarfer Plant Rhanbarthol bob blwyddyn, ac yn adrodd am ganlyniadau fel rhan o adroddiad blynyddol y Bwrdd. Bydd canlyniadau dysgu a nodwyd o Fforymau Ymarfer Amlasiantaethol yn cael eu hystyried gan yr Is-Grŵp Hyfforddi Rhanbarthol a fydd yn ystyried ac yn argymhell sut y dylid lledaenu'r canlyniadau dysgu yn rhanbarthol ac ar sail amlasiantaethol.

Amllder Cyfarfodydd

Bydd cyfarfodydd yn cael eu cynnal bob chwarter a byddant yn cael eu trefnu i gynorthwyo a hwyluso cyfathrebu dwy ffordd â BDCGC. Er enghraifft, 6 wythnos ar ôl, a 6 wythnos cyn, cyfarfodydd y Bwrdd Gweithredol.

Bydd Grwpiau Gweithredol Lleol Plant ac Oedolion yn cael eu cynnal ar yr un diwrnod, yn yr un lleoliad, a byddant yn cael eu hamseru i gynnwys eitemau agenda trawsbynciol.

Bydd cyfarfodydd yn cael eu trefnu bob blwyddyn, gan weithio yn unol â chalendr 12 mis ymlaen.

Gellir trefnu bod cyfarfodydd Grwpiau Gweithredol Lleol neilltuol yn cael eu cynnal rhwng calendr arferol y cyfarfodydd pan ystyrir bod hyn yn briodol.

Agenda

Bydd eitemau agenda i'w trafod yn amrywio, yn dibynnu ar angen a materion lleol. Fodd bynnag, yn y cyd-destun hwn i hyrwyddo cysondeb ledled yr ardal, dylid trafod eitemau agenda rhanbarthol safonol ym mhob Grŵp Gweithredol Lleol (gweler Atodiad 1).

Llywodraethu

Bydd Cadeiryddion Grwpiau Gweithredol Lleol yn adrodd yn uniongyrchol i Fwrdd Gweithredol BDCGC. Bydd hyn yn cael ei wneud trwy fynychu cyfarfodydd y Bwrdd Gweithredol, a thrwy'r Fframwaith Adrodd Sicrhau Ansawdd Rhanbarthol.

Mae Cadeiryddion Grwpiau Gweithredol Lleol yn gyfrifol am sicrhau bod cyfarwydddebau'r Bwrdd yn cael eu hadrodd yn ôl i aelodau Grwpiau Gweithredol Lleol fel y bo'n briodol. Bydd hyn yn cael ei gefnogi gan Uned Fusnes BDCGC a fydd naill ai'n mynychu cyfarfodydd y Grŵp Gweithredol Lleol neu'n darparu adroddiad diweddar ysgrifenedig.

Trefniadau Cadeirio

Ar hyn o bryd, caiff yr holl Grwpiau Gweithredol Lleol eu cadeirio gan Benaethiaid Gwasanaethau Plant ac Oedolion sydd hefyd yn aelodau'r Bwrdd Gweithredol. Dylai Is-Gadeirydd gael ei enwebu a'i ethol, a all fod o wahanol asiantaeth.

Atodiad 1

Eitemau agenda safonol i'w trafod mewn Grwpiau Gweithredol Lleol, lle bo'n berthnasol ar gyfer Gwasanaethau Plant ac Oedolion.

Data a gweithgarwch Sicrhau Ansawdd Lleol a Rhanbarthol, a ddylai gynnwys:

- **Data**
- **Archwiliadau ymarfer**
- **Fforymau Ymarfer Amlasiantaethol yn canolbwyntio ar ymarfer**

Cynlluniau gweithredu rhanbarthol (h.y. CSE ac Operation Jasmine)

Cyfeiriadau ar gyfer Adolygiadau Ymarfer Plant ac Adolygiadau Ymarfer Oedolion

- **Adolygiad ac adroddiad ar gynnydd ar gynlluniau gweithredu rhanbarthol**

Canlyniad unrhyw brosesau dysgu lleol amgen, DHR a digwyddiadau dysgu allweddol troseddau ieuencid.

Anghenion hyfforddiant diogelu lleol.

Diogelu a chomisiynu/darparwyr sector preifat

Diogelu mewn Addysg.

Materion a argymhellwyd i'w hystyried yn yr Is-Grwpiau Hyfforddiant, Polisiâu a Gweithdrefnau Rhanbarthol.

Gweithgarwch cynlluniedig lleol ar gyfer Wythnos Ddiogelu Genedlaethol, a fydd bellach yn ddigwyddiad blynyddol.

Y broses i gael barn defnyddwyr gwasanaeth/grwpiau cymunedol yng nghyfarfodydd Grwpiau Gweithredu Lleol ynglŷn â materion diogelu, gan gynnwys y Bwrdd Diogelu Iau.

Atodiad 2

